

# Dŵr Glân i Fywyd Gwylt

## Pecyn Myfyrwyr

A yw pyllau dŵr, nentydd ac afonydd eich cymdogaeth yn ddigon glân i fywyd gwylt?  
**Ymunwch ag arolwg ein hysgolion a'n cymunedau i ganfod hynny.**

Mae angen dŵr glân heb ei lygru i fywyd gwylt dŵr croyw oroesi. Gwaetha'r modd dim ond ychydig o lygredd maetholion sydd ei angen i niweidio cynefinoedd fel afonydd a phyllau dŵr, ac i wneud niwed i blanhigion sensitif ac anifeiliaid sy'n cartrefu yn y mannau hyn.

Gyda'ch cymorth chi, mae arolwg Dŵr Glân i Fywyd Gwylt yn ceisio canfod gemau cudd - rhannau sy'n rhydd o lygredigaeth maetholion, ac i ganfod am y tro cyntaf maint y llygredd maetholion sy'n wynebu bywyd gwylt mewn dŵr croyw heddiw.



### Crynodeb o'r Camau . . .

- **Cofnodwch eich lleoliad.** Nodwch beth rydych am ei wneud yn yr arolwg, a marciwch hynny ar fap.
- **Casglwch sampl o ddŵr** o bwll dŵr, afon neu ffos leol, eich gardd, neu ddŵr o'ch tap.
- **Rhagfynwch y canlyniadau o'ch safle chi.** Eydd ganddo lefelau uchel, canolig neu isel o faetholion? O ble daw'r dŵr?
- **Defnyddiwch becynnau profi maetholion** i ddatgelu lefelau llygredd nitrad a ffosffad. Oedden nhw yr hyn roeddech wedi ei ddisgwyl? Os nad, pam ydych chi'n meddwl eu bod yn wahanol?
- **Cofnodwch eich canlyniadau ar-lein** ar WaterNet a chyfrannu at ein harolwg cenedlaethol.

Mae Dŵr Glân i Fywyd Gwylt yn un o dri prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr ym mhrosiect Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw sydd wedi ei gyllido gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Thames Water.



G: [freshwaterhabitats.org.uk/projects/clean-water](https://freshwaterhabitats.org.uk/projects/clean-water)  
E: [peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk](mailto:peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk)



# Pam fod Dŵr glân yn bwysig?

Mae dŵr glân yn golygu dŵr sy'n glir o lygredd maetholion. Heb ddŵr glân, mae cynefinoedd dŵr croyw, fel pyllau, afonydd, nentydd a ffosydd, yn methu cynnal cymunedau iach o blanhigion ac anifeiliaid.

### Cynefinoedd dŵr croyw glân



- Mewn cynefinoedd dŵr croyw dowch o hyd i lawer o wahanol fathau o blanhigion tir gwlyb gan gynnwys planhigion dan y dŵr, planhigion ymylol a phlanhigion arnofiol.
- Mae pyllau dŵr a nentydd iach yn cynnal cymunedau cyfoethog o anifeiliaid: chwilog dŵr, malwod, gweision y neidr, cylion Mai, gelod, mursennod, a cheffylau dŵr cefnwyn, i enwi dim ond rhai.
- Mae cynefinoedd dŵr croyw glân yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid prin - cafodd y rhywogaethau hyn eu colli o'r rhan fwyaf o safleoedd yng ngwastadedd Cymru a Lloegr oherwydd llygredd maetholion.

### Cynefinoedd dŵr croyw llygredig



- Dim ond ychydig bach o lygredd sydd ei angen i weld yr effaith.
- Mewn cynefinoedd dŵr croyw llygredig mae planhigion ac anifeiliaid yn dechrau dirywio a diflannu.
- Mae ychydig o blanhigion sy'n oddefgar i lygredd yn meddiannu'r lle - collir planhigion dan y dŵr a thrychfilod sy'n sensitif i lygredd ac nid yw rhywogaethau anghyffredin yn goroesi.
- Mewn pyllau dŵr a nentydd efallai y gwelwch fwy o gelod a larfau pryfed, a mwy o algâu a llinad y dŵr - weithiau gall y dŵr hyd yn oed droi'n wyrdd.

Pan fydd llygredd maetholion yn digwydd gall greu **newidiadau mawr** i blanhigion ac anifeiliaid, ac yn yr achosion gwaethaf, mae'r cynefin yn troi'n wyrdd. Fodd bynnag, gall y newidiadau fod yn gynnil. I ddechrau, **gall y dŵr barhau i edrych yn glir**, ond mae cynnydd yn y **maetholion anweladwy** yn golygu y collir rhywogaethau sensitif ac mae'r cynefin yn araf yn mynd yn dlotach mewn bywyd gwylt.

Mae planhigion dŵr yn defnyddio maetholion fel ffynhonnell bwyd i dyfu. Maent wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd i ymgodymu â **lefelau maetholion isel naturiol**. Pan fyddwn yn ychwanegu mwy, hyd yn oed y nifer lleiaf posibl, mae'n gweithredu fel gwrtaith. Mae rhai rhywogaethau o blanhigion, gan gynnwys algâu, yn defnyddio maetholion yn gyflym ac yn tyfu'n gyflym. Mae hyn yn mygu'r rhywogaethau sy'n tyfu'n arafach ac sy'n fwy bregus, ac ymhen hir a hwyr yn eu lladd.

Bydd gan gynefinoedd llygredig beth bywyd gwylt o hyd, ond ni fydd ganddynt yr amrywiaeth cyfoethog na rhywogaethau prin dŵr glân.

### O ble daw y maetholion hyn?

Dau brif faetholyn sy'n achosi llygredd dŵr croyw - nitradau a ffosffadau.

#### Llygredd Nitrad



Ffynhonnell mwyaf llygredd nitrad yw gwrtaith. Defnyddir gwrtaith yn gyffredin i wella tyfiant planhigion ar y rhan fwyaf o gaeau âr ac fe gaiff ei

ychwanegu at rai parciau, cyrsiau golff a gerddi. Mae hyn yn difaru i'r dŵr croyw drwy'r tir a thrwy oferu.

#### Llygredd Ffosffad



Y prif ffynonellau yw glanhawyr (sebon) a charthion. Ffynonellau eraill yw byd amaeth a ffermio da byw i ddwysedd uchel.

#### Maetholion o'r cartref



Mae dŵr gwastraff o'r sincipiau a'r toiledau yn mynd i'r gweithiau trin i gael eu hidlo cyn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd.

Mae hyd yn oed y dŵr hwn, sydd wedi ei drin, yn llawer uwch mewn maetholion na lefelau cefndir isel naturiol mae planhigion ac anifeiliaid eu hangen.

Weithiau mae'r dŵr gwastraff yn mynd heibio'r gweithiau trin, gan fynd o draeniau ffyrdd yn uniongyrchol i mewn i'n hafonydd a'n nentydd, e.e. sebon o olchi'ch car, traeniau carthffosiaeth yn gorlifo yn ystod llifogydd, neu gamgysylltiadau mewn hen dai lle mae dŵr y sinc yn llifo i ddraeniau'r ffordd yn lle traeniau

## Mae gormod o faetholion yn newyddion drwg i fywyd gwylt



## Beth sydd angen i chi ei wneud

Casglwch sampl o ddŵr ac yna mesur cyfanswm y nitrad a ffosffad gan ddefnyddio'r pecynnau cyflym a ddarperir. Cyn i chi roi prawf ar y sampl, penderfynwch a ydych yn credu a fydd yn llygredig neu'n 'lân i fywyd gwylt' yn seiliedig ar yr hyn a wyddoch am ffynhonnell y dŵr.

### 1 Penderfynwch ble i gasglu'r sampl

Gallwch samplo pwll dŵr, llyn, afon, nant neu ffos. Efallai y byddwch eisiau samplo pwll dŵr yn eich gardd, casgen ddŵr neu hyd yn oed dŵr o'r tap.

Mae'n bwysig cofnodi ble y cymerwyd y sampl a pha fath o gynefin a samplwyd - bydd hyn o help i chi ddeall pam fod y cynefin yn lân neu'n llygredig.

**Ddim yn siŵr pa gynefin i'w samplo?** Rydym wedi rhoi rhai syniadau i chi ar Ddalen 4 o'r pecyn hwn.

**Ddim yn siŵr sut i gofnodi ble rydych chi wedi ei samplo?** Gallwch ddefnyddio cod post, nodi ar fap, neu ddefnyddio gwefan i ganfod cyfeirnod grid: [gridreferencefinder.com](http://gridreferencefinder.com)



### 2 Casglu sampl o ddŵr

Rhoir pâr o fenig i chi a photyn plastig i gasglu'r dŵr. Gallwch gymryd y potyn samplo adref a chasglu'r dŵr yno neu efallai eich bod am wneud hyn fel rhan o drip ysgol neu grŵp.

Mae label ar y potyn i chi ysgrifennu:

- Ble y casglwyd eich sampl
- Pa fath o gynefin a samplwyd

Dewch â'r sampl dŵr yn ôl i'ch ysgol neu gall arweinydd y grŵp ei brofi drwy ddefnyddio'r pecynnau cyflym

#### BYDDWCH YN DDIOGEL!

Mynnwch gael oedolyn i'ch helpu i gasglu eich sampl dŵr

Gwisgwch y menig a ddarparwyd pan fyddwch yn casglu'r sampl a phan fyddwch yn defnyddio'r pecynnau prawf

Rhowch y pecynnau prawf a ddefnyddiwyd a'r potiau sampl i'ch athro neu arweinydd y sesiwn.



### 3 Profi eich sampl dŵr

Bydd dau becyn yn cael ei roi i chi brofi eich sampl dŵr am lygredd maetholion - un yn brawf am lygredd nitrad ac un am lygredd ffosffad. Cyn i chi wneud y prawf penderfynwch os ydych yn credu fod gennych sampl o ddŵr glân neu ddŵr llygredig?

**Prawf am lygredd nitrad:** Bydd un o'ch pecynnau yn profi faint o nitrogen sydd yn y dŵr - bydd hyn yn cael ei nodi gan N. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar ddalen wahanol ac wedi i chi orffen y prawf, recordiwch y cyfanswm o nitrad yn y sampl ar y ffurflen ganlyniadau.

**Prawf am lygredd ffosffad:** Bydd un o'ch pecynnau yn rhoi prawf ar faint o ddeunydd ffosffad sy'n y dŵr - bydd hyn yn cael ei nodi gan P. Yn dilyn y cyfarwyddiadau ar ddalen gwahanol ac ar ôl gorffen y prawf cofnodwch gyfanswm y ffosffad yn y sampl ar y ffurflen ganlyniadau.

Gawsoch chi'r canlyniadau roeddech chi'n eu disgwyl? Os nad, edrychwch ar Ddalen 5 yn y pecyn hwn i'w ddatrys.

### 4 Anfonwch eich canlyniadau atom

Llwythwch i fyny eich canlyniadau i WaterNet: [www.freshwaterhabitats.org.uk/projects/waternet](http://www.freshwaterhabitats.org.uk/projects/waternet)  
Neu casglwch eich canlyniadau gyda'ch gilydd fel dosbarth a'u e-bostio atom: [peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk](mailto:peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk)





# Ble gallech chi samplu?

Daw cynefinoedd dŵr croyw mewn pob math o liw a llun. Er fod llygredd yn ein hafonydd, nentydd a llynnoedd mwyaf yn cael eu monitro, ni wyddom unrhyw beth am lygredd maetholion mewn 99% o'n pyllau dŵr, nentydd llai, ffosydd a chynefinoedd dŵr croyw eraill, ble mae cymaint o'n bywyd gwylt dŵr croyw anhygoel yn byw.



### Pyllau dŵr

Corff o ddŵr hyd at 2ha yn ôl ei faint (mae hynny tua dau gae pêl-droed). Gallant ddal dŵr am flwyddyn gron neu gallant sychu yn yr haf. Mae eu maint bach yn golygu y gallant gael eu canfod mewn ardaloedd sy'n rhydd o lygredd maetholion. Mae 2/3 o'r holl blanhigion ac anifeiliaid tir gwlyb yn byw mewn pyllau dŵr. Gall y pwll dŵr yn eich gardd fod yn gynefin dŵr glân anhygoel.



### Afonydd

Corff o ddŵr rhedegog sy'n cael ei fwydo gan nentydd llai (llednentydd). Dangosir hwy gan linell ddwbl las ar y rhan fwyaf o fapiau printiedig. Maent yn aml yn llifo drwy ardaloedd eang o dir ac yn dod i gysylltiad â llawer o lygryddion ar y ffordd. Mae afonydd yn gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys llawer sy'n sensitif i lygredd maetholion.



### Nentydd

Cyrff bach o ddŵr rhedegog – dangosir hwy gan linell sengl las ar y rhan fwyaf o fapiau printiedig. Mae nentydd yn cynnig cynefinoedd i lawer o wahanol blanhigion ac anifeiliaid. Fel afonydd maent yn llifo drwy ardaloedd eang o dir ac yn gallu dod i gysylltiad â llawer o lygryddion, ond gallant hefyd ffrydio a llifo drwy gynefinoedd sy'n rhydd o lygredd, e.e. coetiroedd a pharciau.



### Ffosydd

Cyrff o ddŵr wedi eu creu gan ddyn i draenio'r tirlun. Maent yn dilyn llinellau syth ar hyd ffiniau caeau, yn aml ar onglau sgwâr. Mae dros hanner miliwn o gilomedrau o ffosydd drwy dirlun gwledydd Prydain. Mewn hen dirweddau fel gorlifdir a chorsydd arfordirol gall y cynefinoedd ffosydd fod yn rhydd o lygredd a gall fod yn gyfoethog iawn mewn bywyd gwylt.



### Llynnoedd

Cyrff dŵr mawr sy'n fwy na 2 gae pêl-droed (>2ha). Maent yn cynnig cynefin i blanhigion ac anifeiliaid dŵr dwfn a'r rhai sydd angen dŵr llonydd, sefydlog. Fel afonydd a nentydd, maent yn aml yn draenio ardaloedd eang o dir a gallant fod yn agored i lygredd maetholion.


**Cynefinoedd eraill dŵr croyw a manau lle gallech fod eisiau eu profi: camlesi, casgenni dŵr yn yr ardd, ffynhonnau, rhuthr dŵr, dolydd gwlyb, corsydd, pyllau dŵr dros dro, hyd yn oed dŵr o'r tap yn y gegin.**



# Beth yw arwyddocâd eich canlyniadau?

Defnyddiwch y diagram a'r wybodaeth isod i ganfod beth mae'ch canlyniadau yn ei olygu i fywyd gwylt

Gall nitradau a ffosffadau fod yn niweidiol. I fod yn gynefin dŵr glân rhaid i'r sampl ddangos nad oes tystiolaeth o lygredd ffosffad na nitrad. Os yw'r canlyniadau i nitrad a ffosffad yn dangos gwahanol lefelau o lygredd, defnyddiwch y canlyniad uchaf (y llygredd mwyaf) i ddeud wrthyhych pa mor lygredig yw eich dŵr yn gyffredinol. Mewn geiriau eraill os ydych yn dod o hyd i ddystiolaeth o lygredd gan naill ai nitrad neu ffosffad mae corff y dŵr wedi ei lygru gan faetholion



## Dim tystiolaeth o lygredd maetholion

**Gwych!** Bach neu ychydig yw'r newid lliw a ddangosir gan ddŵr heb ei lygru. Felly rydych chi wedi dod o hyd i gynefin sy'n rhydd o lygredd nitrad a ffosffad. Mae hynny'n wych i fywyd gwylt!

Pam ydych chi'n credu fod eich safle'n rhydd o lygredd? Ystyriwch o ble daeth y dŵr a pham nad oes ffynonellau o lygredd yn dod i mewn i'r cynefin.

Edrychwch ar Ddalen 6 os ydych eisiau gwybod yr atebion.

Efallai y byddwch eisiau casglu canlyniadau'r dosbarth a'u cymharu â'r astudiaethau achos - Dalennau 7 ac 8.



GENEVIEVE LEAPER

## Tystiolaeth o lygredd maetholion

**Yn anffodus** rydych wedi dod o hyd i ddŵr sydd wedi ei effeithio gan lygredd maetholion ar lefelau fydd yn niweidiol i fywyd gwylt - gall fod yn nitrad neu'n ffosffad (neu'r dda).

Bydd lleoedd â pheth llygredd yn dal i fod â bywyd gwylt, ond ni fydd ganddynt y cyfoeth rhyfeddol o fywyd na rhywogaethau prin sy'n byw mewn cynefinoedd dŵr glân. Bydd dros hanner y planhigion a'r anifeiliaid a ddylai fod yno wedi eu colli.

Pam fod rhai planhigion ac anifeiliaid yn cael trafferth i oroesi pan fydd cynnydd cymedrol mewn llygredd?



WILL WATSON

## Lefelau uchel neu lefelau uchel iawn o lygredd maetholion

**O na!** Rydych wedi dod o hyd i lefelau uchel o naill ai nitrad neu ffosffad (neu'r dda). Mae llawer o blanhigion a thrychfilod yn ei chael yn anodd i wneud eu cartref mewn cynefinoedd fel hyn.

Weithiau mae algâu a llinad y dŵr yn tyfu ar yr wyneb ac yn mygu'r planhigion a'r anifeiliaid sydd ar ôl. Collir harddwch a chyfoeth dŵr glân.

Pam fod y dŵr hwn wedi ei lygru gymaint?

Cofiwch y gall dŵr tap fod yn ddiogel i ni ei yfed ond yn dal i fod â lefelau maetholion nad yw'n dda i fywyd gwylt





# Pam fod rhai cynefinoedd wedi eu llygru?

## Pyllau dŵr mewn trefi ac yn y wlad

Os yw pwll dŵr mewn ardal sy'n cael ei amaethu'n ddwys neu mewn ardal ddinesig, yna gall maetholion fod wedi eu hychwanegu at y tir o gwmpas fel gwrteithiau, ddraenio i'r pwll dŵr a'i lygru. Nid yw hyn yn dda i fywyd gwyllt.

Ond gallwch ddod o hyd i byllau dŵr glân mewn trefi ac yn y wlad, os nad ydynt yn agos at gaeau wedi eu ffermio neu ffyrdd, a does dim draeniau na ffosydd yn mynd iddyn nhw. Gallwch yn aml ddod o hyd i byllau dŵr fel hyn mewn coetiroedd, parciau neu rostiroedd.

Mae pyllau dŵr glân yn ein trefi ac yn y wlad yn wirioneddol bwysig i fywyd gwyllt.



WILL WATSON



EVAN JONES

## Afonydd, nentydd a ffosydd

Mae'r cynefinoedd dŵr rhedegog hyn yn casglu dŵr o ardaloedd enfawr, a bron bob amser yn cynnwys tir lle mae gwrteithiau ffynhonnell fawr o lygredd maetholion) yn cael eu defnyddio. Gallant hefyd gael llygredd maetholion o ddraeniau sy'n pibelli dŵr o'n ffyrdd a'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff i mewn i'n hafonydd a'n nentydd. Bydd olion carthffosiaeth a glanedyddion yn y dŵr ar lefelau rhy uchel i fywyd gwyllt dŵr croyw, hyd yn oed wedi iddo gael ei drin.

Erbyn hyn mae dod o hyd i afonydd neu nentydd mawr sydd heb eu llygru gan faetholion yn beth prin. Mae'r safleoedd glanaf gyda'r nifer lleiaf o faetholion, yn tueddu i fod yn nentydd bach a ffosydd sy'n dechrau mewn coetiroedd, rhostiroedd a chynefinoedd lled naturiol eraill am na fu cyfle i'w llygru.

## Pyllau dŵr gardd

Pan gaiff pyllau dŵr gardd eu llenwi gan ddŵr glaw, efallai wedi ei storio mewn casgen ddŵr, maent yn isel iawn eu maetholion, a gallant gynnig cynefinoedd da i fywyd gwyllt. Gall pyllau dŵr sydd wedi eu llenwi gan ddŵr tap fod yn uchel eu maetholion a gallant ddangos arwyddion llygredd. Gall pyllau dŵr gyda physgod ynddynt hefyd fod yn uchel eu maetholion oherwydd y bwyd pysgod a ychwanegwyd, a baw pysgod.

## Dŵr Tap

Mewn rhai ardaloedd, gall y dŵr gewch chi o'ch tap fod yn uchel yn ei faetholion. Mae cwmnïau dŵr yn sicrhau fod dŵr tap yn ddiogel i bobl ei yfed, ond nid yw'r lefelau maetholion bob amser yn ddigon isel i fywyd gwyllt ffynnu. Cofiwch dim ond cynnydd bach iawn yn y lefelau maetholion sydd ei angen i newid ansawdd pwll dŵr.



PHOTO FROM BDS




# Astudiaeth Achos: Y Fforest Newydd

## Dalgylch dŵr glân

Y Fforest Newydd yw un o'r ardaloedd mwyaf a phwysicaf i fywyd gwyllt yn Lloegr. Mae yno lawer o gynefinoedd da gan gynnwys corstiroedd, coetiroedd a glaswelltiroedd a llawer o gynefinoedd dŵr croyw - pyllau, llynnoedd, afonydd, nentydd a ffosydd. Yn y Fforest Newydd fe welwch ferlod, gwartheg, mulod a moch yn pori fel y gwnaethant ers cannoedd o flynyddoedd. Welwch chi ddim ffermydd mawr, trefi mawr na dinasoedd fel sydd yng ngweddill Lloegr.

Roedd gwirfoddolwyr am wybod sut ansawdd oedd i'r dŵr yn y math hwn o dirlun. Allwch chi ddyfalu beth wnaethant ei ddarganfod?



Roedd

# 74%

o ddŵr croyw  
heb ei lygru

Roedd dros hanner y cynefinoedd dŵr glân yn byllau (54%), ond hefyd roedd llawer o nentydd dŵr glân (36%) a rhai llynnoedd ac afonydd glân.

Roedd bron yr holl ddŵr llygredig o amgylch ffin y Fforest Newydd (smotiau coch a gwyrdd).

Allwedd

● Wedi ei Lygru ● Peth Llygredd ● Yn Llygredig Iawn

## Egluro'n canfyddiadau

Yn y Fforest Newydd mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn lân ac heb ei lygru gan mai'r hyn sydd ar y tir yw pori traddodiadol dwyster isel felly ychydig o faetholion sy'n cael eu hychwanegu at y tirwedd.

Mae unrhyw lygredd maetholion yn dod yn bennaf o drefi a phentrefi. Y Fforest Newydd yw un o'r ychydig leoedd yn ne Lloegr lle mae llawer o'r nentydd a'r afonydd yn dal i fod heb eu llygru. Mae hyn yn wych i fywyd gwyllt, sydd â dewis enfawr o gynefinoedd i fyw ynddo neu i symud rhyngddynt. Nid yw'n syndod bod y Fforest Newydd yn gartref i lawer o'n planhigion ac anifeiliaid d'r croyw mwyaf prin a rhai sydd dan fygythiad.


Y tu allan i'r Fforest Newydd, mae'n stori wahanol iawn. Yma caiff y tir ei ffermio a nifer yr anifeiliaid sy'n y caeau eu cynyddu. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol faint o lygryddion sy'n cael eu hychwanegu at y tirwedd ac o ganlyniad mae llawer o safleoedd yn llygredig iawn. Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid dŵr croyw yn cael trafferth i oroesi yma, ac mae'r cynefinoedd dŵr croyw yn llawer tlotach mewn bywyd gwyllt.



## Astudiaeth Achos: yr Afon Ock Dalgyrch wedi'i ffermio

Mae'r Ock yn afon sy'n draenio i Afon Tafwys yn Swydd Rydychen. Caiff ei dŵr yn bennaf o ardaloedd o gefn gwlad nodweddiadol yn Lloegr a ddefnyddir ar gyfer ffermio dwys, diwydiannol modern. Mae pentrefi bach a threfi gwledig wedi'u dosbarthu drwy'r ardal. Ond hyd yn oed yma, mae yna rai ardaloedd bach o goetiroedd, dolydd a chorsydd y gellir olrhain eu hanes yn ôl am 5000 o flynyddoedd. Mae'r rhain yn aml yn cael eu diogelu a'u rheoli fel gwarchodfeydd natur.

Roedd gwirfoddolwyr eisiau gwybod beth oedd ansawdd y dŵr yn y math hwn o dirwedd. Allwch chi ddyfalu beth wnaethant ei ddarganfod?



Roedd

# 28%

## o ddŵr croyw heb ei lygru

Roedd cyfran fechan o safleoedd heb eu llygru (28%). Y mwyafrif o'r safleoedd dŵr glân yma oedd pyllau a llynnoedd (68%). Nid oedd unrhyw afonydd ac ychydig iawn o nentydd oedd heb eu llygru.

Allwedd

● Heb ei lygru ● Peth Llygredd ● Yn Llygredig Iawn

### Egluro ein canfyddiadau

Mae dŵr glân yn Nalgylch yr Ock i'w weld mewn ychydig dros chwarter y cyrff dŵr, ac roedd bron bob un o'r rhain yn byllau a llynnoedd. Fel y rhan fwyaf o ardaloedd y tir isel ym Mhrydain, mae'r mwyafrif o nentydd, ffosydd a phob afon, yn dioddef llygredd maetholion difrifol. Nid yw hyn yn syndod am fod y rhwydwaith o afonydd yn draenio dŵr o ardaloedd enfawr o dir gyda ffynonellau llygredd lluosog o ffynonellau trefol ac amaethyddol.

Mewn gwrthgyferbyniad, gall rhai pyllau gasglu dŵr o ffynonellau glân lleol - ardaloedd bach o dir nad ydynt yn agored i llygredd maetholion. Wrth gwrs, mae rhai pyllau dŵr yn llygredig - yn enwedig os ydynt yn digwydd bod mewn caeau sy'n cael eu ffermio'n ddwys neu'n draenio dŵr o'r ffyrdd. Gall rhai o'r nentydd bychain a'r ffosydd hefyd ddianc rhag llygredd am gyfnod os ydynt yn dechrau eu bywyd mewn coetir neu warchodfeydd natur. Nid oes unrhyw faetholion ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn y lleoedd hyn ac felly maent yn cynnig hafan i fywyd gwyllt i rywogaethau sy'n dibynnu ar ddŵr glân.